**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**STRATEGAETH WEITHREDU AR GYFER CYMOEDD Y DE**

**Diben**

1. Gofynnir i’r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn a'r papur cysylltiedig ar Ddatblygu Cymunedol sy’n bwrw ymlaen â gwaith, sy’n deillio o ddadl lawn a gynhaliwyd ym Tachwedd 1999, ynghylch datblygu strategaeth weithredu ar gyfer Cymoedd y De.

**Cefndir**

2. Cyflwynwyd y cynnig canlynol gan Blaid Cymru ar gyfer eu dadl enwebedig ar 23 Tachwedd 1999. Mae’n ymgorffori’r gwelliannau a gymeradwywyd i’r cynnig:

> "Bod y Cynulliad yn cydnabod bod Cymoedd De Cymru yn haeddu sylw arbennig oherwydd cyfuniad o anfanteision yn deillio o ddatblygiadau diwydiannol anghynaliadwy y gorffennol ac esgeulustra parhaus un llywodraeth ar ôl y llall; ac yn cydnabod hefyd fod angen manteisio i’r eithaf ar gronfeydd strwythurol yr UE drwy ddarparu arian cyfatebol llawn ar gyfer y cyfan o’r rhaglen Amcan 1 a mentrau integredig ar draws yr holl feysydd polisi er mwyn gwneud iawn am yr anfanteision hyn a rhyddhau holl botensial cymunedau’r cymoedd; ac yn nodi’n benodol yr angen i gymryd camau cydlynol ynghylch:
>
> - datblygu economaidd wedi’i deilwra’n arbennig at anghenion penodol y cymunedau hyn;
> - datblygu cymunedol;
> - addysg a hyfforddiant priodol a hygyrch a ddarperir mewn partneriaeth gyda’r sectorau preifat a gwirfoddol ;
> - gwelliannau amgylcheddol;
> - mynd i’r afael ag afiechyd a hyrwyddo lles;
> - cludiant cyhoeddus hygyrch ac o ansawdd uchel.
>
> Mae’r Cynulliad felly’n cynnig bod Pwyllgorau Pwnc perthnasol y Cynulliad, gan ymgynghori gyda’n partneriaid yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn llunio strategaeth weithredu i fynd i’r afael â’r materion a restrir uchod."

**Cyflwyniad**

3. Cyflwynir y strategaeth ddrafft hefyd i Bwyllgor Rhanbarth y De-Orllewin a phwyllgorau pwnc perthnasol yn sesiwn newydd y Cynulliad. Anfonir copi ohoni at Bwyllgor y Canolbarth. Bydd y pwyllgorau'n penderfynu sut y maent yn dymuno bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Cynigir bod ymgynghori'n digwydd â'r Bartneriaeth Fusnes; Partneriaeth y Sector Gwirfoddol; y Cyngor Partneriaeth a chyrff iechyd.

**Fframwaith y strategaeth weithredu**

4. Nid oes unrhyw arian uniongyrchol yn gysylltiedig â'r strategaeth weithredu ddrafft hon. Gofynnwyd i Swyddogion y Cynulliad, sy'n gyfrifol am y mater penodol, baratoi papur, gan edrych yn arbennig ar raglenni presennol a rhai arfaethedig a mentrau sydd wedi'u teilwra i anghenion cymunedau'r cymoedd. Er hynny, ar sail Cymru gyfan y gweithredir y mwyafrif o'r rhaglenni, er y gallai fod yn wir bod y budd a ddaw i'r Cymoedd yn uwch yn gyfrannol nag mewn ardaloedd eraill a hynny oherwydd yn yr ardaloedd hyn y gwelir yr angen mwyaf. Lle bynnag y bo modd, cynhwysir enghreifftiau o brojectau penodol yn y papurau.

**Themâu traws-bynciol**

5. Mae pob papur yn ymdrin â phwnc gwahanol, ond mae natur y materion o dan sylw a'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud i fynd i'r afael â'r materion hynny, yn arwain at ryw gymaint o orgyffwrdd.

**Gwell Cymru**

6. Er hwylustod, cynigir y dylai'r ymarfer hwn ymgysylltu â gwaith sy'n cael ei symud ymlaen o dan "Gwell Cymru". Bydd hyn yn cynnwys mabwysiadu, ar gyfer ardal y Cymoedd, ac ym mhob un o'r meysydd pwnc, gynifer â phosibl o'r 100 o bwyntiau gweithredu a thargedau i'r Cynulliad am y cyfnod 2000-2003.

**Amcan 1**

7. Amcan 1 fydd prif yrrwr adfywiad yng Nghymoedd y De. Mae Dogfen Rhaglennu Sengl ar gyfer Amcan 1 yn awgrymu saith blaenoriaeth ar gyfer y Rhaglen, wedi'u his-rannu yn fesurau, a chan bob un gyllideb. Mae gan y rhain gysylltiad agos â chwe maes y cynllun gweithredu. Seilir y targedau ac allbynnau ar Orllewin Cymru a'r Cymoedd. Bydd angen ffurfio barn ynghylch a ddylid rhannu'r ardal at ddibenion monitro a gwerthuso'r rhaglen. Y blaenoriaethau yw:

- **Blaenoriaeth 1**. Mae'n cynnwys ystod gynyddol o gymorth i fentrau bach a chanolig, gyda chanolbwynt ar wasanaethau y gellir eu masnachu gan gynnwys busnesau meddalwedd. Bwriedir cael cronfa fuddsoddi newydd, ymgyrch o bwys i feithrin menter a chreu busnesau newydd, eu parhad a'u twf; system o gyngor

busnes a chanddo ganolbwynt pendant; uwchraddio medrau galwedigaethol a rheoli a darparu lleoliadau a gweithdai o safon ar gyfer mentrau bach a chanolig.

- **Blaenoriaeth 2**. Mae hyn yn ceisio mynd i'r afael â lefelau isel o ran arloesi ac ymchwil a datblygu; seilwaith TGCh a hybu defnyddio TGCh; datblygu parciau gwyddoniaeth, etc.
- **Blaenoriaeth 3**. Mae hyn yn canolbwyntio ar Adfywio Cymunedol.

- **Blaenoriaeth 4**. Bydd cronfeydd sylweddol ar gyfer hyfforddiant i helpu'r di-waith a phobl sy'n anweithgar yn economaidd ac i atal pobl rhag llithro i mewn i ddiweithdra tymor-hir.
- **Blaenoriaeth 5**. Blaenoriaeth wledig i bwysleisio'r cysylltiadau â'r Cynllun Datblygu Gwledig.
- **Blaenoriaeth 6**. Mae hyn yn canolbwyntio ar seilwaith - datblygu cludiant, gan gynnwys ffyrdd, darparu safleoedd cyflogaeth mawr, strategol, seilwaith ynni - gan gynnwys ynni adnewyddadwy - a seilwaith amgylcheddol.
- **Blaenoriaeth 7**. Cyllideb Cymorth Technegol i helpu i ariannu gweinyddu rhaglenni.

8. Bydd Pwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1 yn bwrw ymlaen â'r cyfan neu ran o'r rhaglen drwy Gynlluniau Gweithredu ffurfiol. Bydd cynlluniau a lunnir gan bartneriaethau yn caniatáu ymagwedd fwy strategol at gyflwyno rhaglenni Cronfeydd strwythurol, yn helpu i gyflawni'r amcanion a'r targedau a bennir; yn sicrhau mwy o gydweithio mewn partneriaeth ar y lefel ranbarthol,

is-ranbarthol a lleol, a hybu cyfleoedd ar gyfer integreiddio rhwng gweithgarwch Ewropeaidd a rhaglenni adfywio domestig i'r eithaf.

9. Gellir cynnig Cynlluniau Gweithredu, y gellir eu gweithredu dros nifer o flynyddoedd, ar wahanol lefelau gofodol:

a. Rhanbarthol, gan gynnwys y cyfan o ardal Amcan 1;

b. Is-ranbarthol, dim dros y Rhaglen gyfan ond yn ymestyn y tu hwnt i ffin un awdurdod lleol;

c. Lleol, yn gysylltiedig ag ardal un awdurdod lleol (neu ran ohoni).

**Ystyriaeth**

10. Ni nodir unrhyw argymhellion yn y papur hwn. Ceisir barn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai fel rhan o'r broses o fwrw ymlaen â'r cynllun gweithredu.

**Cydymffurfio**

11. Nid oes unrhyw faterion o reolaidd-dra a phriodoldeb a dim byd sy’n newydd neu’n gynhennus. Ymgynghorwyd â Swyddfa Gydymffurfio y Cynulliad ynghylch y cyflwyniad hwn ac mae’n fodlon arno.

**Goblygiadau Ariannol**

12. Diben y papur pwyllgor hwn yw darparu gwybodaeth am strategaeth weithredu sy’n tynnu rhaglenni presennol at ei gilydd. Cynhwysir yr holl wariant o fewn cyllidebau a gymeradwywyd gan y Cynulliad. Ymgynghorwyd â’r Adran Cynllunio Ariannol ynghylch y papur hwn ac fe nododd nad oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol ar gyfer y Cynulliad.

**Camau**

13. Gwahoddir y Pwyllgor i roi ei sylwadau ar y papur.

## CRYNODEB GWEITHREDOL O’R PAPURAU

### 1. Datblygu economaidd sydd wedi’i deilwra i anghenion penodol cymunedau’r Cymoedd

Mae’r papur hwn yn edrych yn fyr ar brif achosion dirywiad economaidd yr ardal ac ar ffyrdd o adfywio’r economi. Oni bai bod swyddi a busnesau’n creu golud, mae’n amhosibl i unrhyw ardal weld tro ar fyd. Mae adfywio economaidd yn dibynnu ar ddarparu’r amgylchedd i ddenu cwmnïau ac i gwmnïau brodorol dyfu, gan gynyddu nifer y swyddi a’u hansawdd, mae helpu pobl i gystadlu am swyddi yn cael ei drafod yn y ddau bapur ar ddarparu addysg bellach ac uwch; a hyfforddiant priodol a hygyrch. Y meysydd a grybwyllir yw cyfleoedd o dan Amcan 1; ariannu adfywio lleol; gwaith Awdurdod Datblygu Cymru wrth adfer tir, cynlluniau datblygu safleoedd ac adeiladau, a phrojectau datblygu trefol; cymorth i fusnesau a menter; y Fargen Newydd.

### 2. Datblygu Cymunedol

Mae’r papur hwn yn manylu ar Raglen Pobl mewn Cymunedau lle mae tri o’r wyth maes gweithredu yng Nghymoedd y De. Mae’n bwrw ymlaen ymhellach ag esboniadau o paham y mae’r Cymoedd yn unigryw, o safbwynt **hyd a lled** problemau aml-amddifadedd ac anfantais gymdeithasol a achosir gan ddirywiad diwydiannol ac ailstrwythuro. Mewn llawer ffordd mae’r problemau hyn oll wedi ysgogi’r ymagwedd a arddelir gan "Gymunedau yn Gyntaf", h.y., bwriedir ei dargedu ar y cymunedau mwyaf difreintiedig, gyda chynlluniau gweithredu yn cael

eu datblygu gan, ac yn canolbwyntio ar anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau eu hunain drwy bartneriaethau effeithiol ar y lefel leol gydag adnoddau tymor-hir. Bydd Cymunedau yn Gyntaf, drwy ei ymagwedd bartneriaeth ar y lefel leol a'r lefel ehangach, yn darparu'r integreiddio a'r cydgysylltu strategol y mae rhaglenni a mentrau blaenorol sydd wedi'u targedu yn benodol ar y Cymoedd wedi methu â'i wneud.

**3a. Hyfforddiant priodol a hygyrch**

Rhan allweddol o'r ateb i lawer o unigolion a chymunedau cyfan yw sefydlu, law yn llaw â mesurau economaidd a ddyluniwyd i gynyddu'r cyflenwad o swyddi, ddewis cynhwysfawr o raglenni hyfforddiant, cyngor a chyfarwyddyd a fydd yn help pobl i gael y swyddi da hyn. Mae'r papur yn rhoi manylion lefelau uchel y medrau a'r cyfraddau anweithgarwch sydd mor amlwg yn y Cymoedd (35% ym Merthyr - yr uchaf yng Nghymru). Mae'n amlinellu sut y bydd y Tasglu Medrau yn argymell camau a fydd yn bwydo i mewn i gynllun gweithredu medrau cynhwysfawr a fydd yn rhan o Strategaeth Genedlaethol Datblygu Economaidd. Rhoddir manylion mentrau a seilir ar helpu'r cyfnod trosglwyddo o'r ysgol i fyd gwaith megis y Fenter Mynediad Ieuenctid; y Porth Ieuenctid, Learndirect a hyfforddiant i bobl ifanc, sy'n perthyn i'r ddwy lefel o fentrau a ariennir gan y Cynulliad a mentrau sy'n neilltuol i Lywodraeth y DU.

**3b. Addysg Bellach ac Uwch yng Nghymoedd y De**

Yn cysylltu â Gwell Cymru, mae'r papur hwn yn nodi rhai o'r canlyniadau allweddol y dymunir eu gweld erbyn Mawrth 2003 ledled Cymru gyfan; y gofynion y mae eu hangen i sicrhau gwelliant cynaliadwy yn y Cymoedd a chanolbwynt ehangach datblygu gweithlu medrus. Mae'n amlinellu ddarpariaeth **addysg bellach** ac yn casglu bod darpariaeth ranbarthol ledled Cymoedd y De ar gael ar draws maes pob rhaglen; mae cydbwysedd o hyfforddiant cyffredinol a galwedigaethol ar gael; mae wedi'i gwasanaethu yn dda ar gyfer addysg a hyfforddiant mewn meysydd rhaglenni a gysylltir â diwydiant traddodiadol; mae yna ystod eang o raglenni ar gael ar draws lefelau cymwysterau; twf cryf mewn rhaglenni TG ac ystod eang o raglenni llythrennedd a rhifedd sylfaenol ar gael yn enwedig mewn safleoedd estyn allan. Ond er gwaethaf y llu o leoliadau a'r ddarpariaeth helaeth mae gan gymunedau'r Cymoedd y **cyfraddau cyfranogi** isaf yng Nghymru a rhai o'r lefelau gwaethaf ym maes llythrennedd a rhifedd sylfaenol ymhlith oedolion yng Ngorllewin Ewrop. Yn Atodiad A i'r papur amlinellir yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan ddarparwyr i gynnwys pobl sydd wedi anfodloni a cheir yn Atodiad B y gweithgareddau penodol a wneir gan y colegau addysg bellach a leolir yn y Cymoedd.

Darperir gwybodaeth am ddarpariaeth addysg uwch, mewn tri choleg a'r ymdrechion a wneir i recriwtio ac ehangu mynediad, ynghyd â helpu i wella cymwysterau a medrau pobl gyflogedig. Yn Atodiad C rhoddir manylion y ganran o ymunwyr o gymdogaethau cyfranogiad isel a darpariaeth ran-amser.

**4. Cludiant cyhoeddus hygyrch o safon uchel**

Mae’r papur, gan ddefnyddio fframwaith "Gwell Cymru", yn nodi’r canlyniadau yr ydym am eu gweld erbyn 2003 a’r pethau a wnawn i ddatblygu system cludiant cynaliadwy a chydgysylltiedig i gefnogi cymunedau lleol a chreu economi gwell o fewn fframwaith datblygu cynaliadwy a helpu i leddfu anfantais gymdeithasol. Cynhwysir manylion mentrau penodol megis teithio a phasys gostyngol; cynllun grantiau cymhorthdal bysiau; cludiant cymunedol a chymorth y Cynulliad i fesurau trafnidiaeth yng Nghymoedd y De.

**5. Gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldeb iechyd**

Mae’r papur yn archwilio’r ffactorau cysylltiedig a rhyng-ddibynol sy’n dylanwadu ar gyflwr iechyd a lles. Mae’n esbonio bod rhai ffactorau sy’n dylanwadu ar iechyd yn gallu cael eu newid, e.e. tlodi, amddifadedd, dosbarth cymdeithasol, tai gwael, diweithdra, ond nad oes modd newid rhai eraill megis rhyw, hil a ffactorau genetig. Mae bron pob un o’r dangosyddion iechyd yn cadarnhau’r berthynas rhwng amlder afiechyd ac amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd gwael. Mae hyn yn golygu bod rhaid i gamau i leihau anghydraddoldeb fod yn rhan integredig o ddatblygu economaidd wedi’i dargedu ac adfywio cymunedol. Mae gwell iechyd a lles yn un o’r pum blaenoriaeth yng nghynllun strategol y Cynulliad sef "Gwell Cymru". Nid oes modd o wella iechyd Cymru ar fyrder; mae’n cymryd amser newid agweddau a strwythurau. Mae’r mwyafrif o bolisïau a rhaglenni wedi’u hanelu at gamau ledled Cymru. Mae’r papur yn rhoi manylion camau sy’n benodol i Gymoedd y De - Iechyd yn y Gwaith, project peilot tair blynedd, yn benodol i ardaloedd Merthyr Tudful a Chwm Cynon; arbrofi menter Verona Corff Iechyd y Byd sy’n ceisio meincnodi buddsoddiad mewn iechyd, Class Moves lle mae deunyddiau newydd i hybu ymarfer i blant y cyfnod cynradd yn cael eu harbrofi mewn chwe ysgol; a chystadleuaeth *Smokefree Class.*

**6. Gwella’r Amgylchedd**

Mae datblygu cynaliadwy yn un o’r tair prif thema sy’n rhedeg drwy gynllun strategol y Cynulliad. Mae camau cynlluniedig i fynd i’r afael â phroblemau yr amgylchedd yn cynnwys gwaith Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru sydd wedi paratoi, gan ymgynghori â chymunedau a chyrff lleol, Gynlluniau Asiantaeth Amgylchedd Leol ar gyfer pob ardal yng Nghymoedd y De. Yn y cynlluniau nodir materion amgylcheddol allweddol ar gyfer pob ardal a chamau i’w datrys. Mae’r papur yn edrych ar faterion o ran Ansawdd Awyr; Gwastraff; Adfer Tir; a Llygredd Dr . Bydd y Cymoedd yn elwa yn fawr ar y rhaglen i wella 1,000 o allyriadau carthion erbyn 2005. Bydd hyn yn arwain at well afonydd ac yn galluogi datblygu economaidd yn achos yr ardaloedd mwyaf amddifad. Mae rhaglen adfer i fynd i’r afael â llygredd dr mwyngloddiau hefyd wedi’i sefydlu. Un o’r rhai a fydd yn elwa yw safle hen Pwll Glo Taf Merthyr lle mae’r system gwlyptiroedd mwyaf i’w hadeiladu gan yr Awdurdod Glo yn dechrau dod i drefn yng nghanol Parc Mileniwm Taf Bargod.

**Atodiad**

## STRATEGAETH WEITHREDU AR GYFER CYMOEDD Y DE

## DATBLYGU CYMUNEDOL

Mae mynd i’r afael ag anfantais gymdeithasol yn un o’r tri prif thema y mae’r Cynulliad wedi ei fabwysiadu yn y cynllun strategol ‘Gwell Cymru’. Mae’r cynllun yn pwysleisio ein hymrwymiad llwyr i ddatblygu gwell cymunedau lle bydd pobl am fyw, gweithio a chwarae; lle mae cyfleoedd economaidd i bobl ac amgylchedd dymunol a diogel.

Mae Gwell Cymru yn ymrwymiad i hyrwyddo gwell cydraddoldeb, creu mwy o swyddi, lleihau bylchau mewn iechyd, addysg a gofal cymdeithasol, gwella tai ac amgylcheddau ac annog partneriaethau a chynaliadwyedd.

Nid oes yna atebion hawdd. Mae nifer o gymunedau yn dioddef o amddifadedd dwys a hirsefydlog ac maent yn bell oddi wrth cynaliadwyedd economaidd.

Mae gwaith wedi ei wneud i weithredu strategaethau cynhwysfawr er mwyn mynd i’r afael ag anfantais gymdeithasol:

- Mae’r Rhaglen Pobl mewn Cymunedau yn rhaglen o weithredu cymunedol ar raddfa fach ond dwys. Mae wedi cael ei weithredu mewn wyth ardal yng Nghymru ers mis Mai 1999 gan gynnwys tair ardal yng Nghymoedd y De (Rhymni, Caerffili; Gurnos a Galon Uchaf, Merthyr Tudful a Rhiwgarn, Trebanog, Rhondda Cynon Taf). Darparwyd £240,00 trwy’r rhaglen yn yr ardaloedd hyn. Bydd yr ail gam o brosiectau yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir ac mae’n debygol o gynnwys mwy o gymunedau yn y Cymoedd.

  Mae Pobl mewn Cymunedau yn cydnabod yr angen i hyrwyddo cyfranogiad cymunedol ym mholisïau adfywio ardaloedd amddifaid.

Nid yw’r problemau o aml-amddifadedd ac anfantais gymdeithasol a brofir gan gymunedau Cymoedd y De yn unigryw o fewn y cyd-destun Cymreig, Prydeinig nac Ewropeaidd. Mae dirywiad diwydiannol ac ailstrwythuro wedi gadael poblogaethau ar draws Ewrop wedi eu hynysu mewn ardaloedd o ddiweithdra uchel sydd heb fawr o allu i addasu at amodau economaidd newydd na gallu i greu llwybrau gwahanol tuag at adferiad cymdeithasol ac economaidd. Yr hyn sydd yn unigryw am y Cymoedd yw:

- Maint y broblem yn nhermau poblogaeth ac yn nhermau’r nifer o gymunedau yr effeithir.

- Y raddfa o dlodi ac anfantais a’r patrymau o eithrio cymdeithasol sy’n gysylltiedig â hynny.

- Y ffaith fod y problemau wedi eu canolbwyntio mewn ardal ddaearyddol bendant.

- Hirbarhad y patrwm o anfantais cymdeithasol.

- Diffyg llwyddiant dulliau polisi arferol wrth fynd i’r afael â’r broblem.

‘Cymunedau yn Gyntaf’ yw gweledigaeth y Cynulliad ar gyfer dyfodol y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a’r cysyniad o sut y medrir eu hadfywio. Bydd Cymunedau yn Gyntaf yn targedu’r cymunedau mwyaf difreintiedig gyda dulliau o weithredu sydd wedi eu datblygu gan, ac sy’n canolbwyntio ar anghenion a blaenoriaethau y cymunedau eu hunain. Bydd angen ymrwymiadau tymor hir ar gyfer adnoddau, cefnogaeth a chyllid er mwyn hybu partneriaethau effeithiol ar lefel leol.

Mae proses ymgynghori eang ac ymarfer cyfranogol o ddatblygu polisi wedi dechrau ac fe fydd cynigion cadarn ar gyfer y cynllun yn cael eu cyhoeddi yn yr Hydref.

Mewn sawl ffordd mae’r problemau cyfansawdd hyn wedi ysgogi’r dull o drin ag amddifadedd a fydd yn cael ei sefydlu gan y strategaeth Cymunedau yn Gyntaf. Tra bydd yn berthnasol i holl gymunedau Cymru, fe fydd y dull Cymunedau yn Gyntaf yn cael effaith gref ar y Cymoedd lle mae’r sector datblygu cymunedol eisoes yn aeddfed. Fe welir hyn yn glir yn y nifer o Ymddiriedolaethau Datblygu sydd wedi dod i’r amlwg er mwyn mynd i’r afael ag amddifadedd cymdeithasol yng nghymunedau’r Cymoedd. Mae ardal Cymoedd De Cymru eisoes wedi dangos ei bod yn ffafriol ar gyfer y strategaeth adfywio ardal sydd wrth wraidd y cynllun Cymunedau yn Gyntaf. Heb geisio rhagweld canlyniad yr ymgynghori eang sydd ar y gweill, y mae’n amlwg y bydd creu partneriaethau aml-asiantaeth gyda rôl amlwg ac allweddol i aelodau’r gymuned yn rhan bwysig o’r dull Cymunedau yn Gyntaf. Mae gan ddiwylliant y Cymoedd hanes o gymryd rhan yn lleol sydd yn sicrhau fod gan gymunedau heddiw y gynneddf i fod yn rhan o gynllunio a gweithredu’r atebion i’r problemau a wyneba’r cymunedau.

Bydd Cymunedau yn Gyntaf, trwy y dull partneriaeth, yn galluogi’r cydlynu integredig a strategol na welwyd o ganlyniad i raglenni blaenorol a dargedwyd yn arbennig at y Cymoedd. Er na fydd pob cymuned yn y Cymoedd yn cymryd rhan yn y strategaeth Cymunedau yn Gyntaf yn uniongyrchol, fe fydd y patrymau o amddifadedd ac anfantais cymdeithasol sy’n bodoli yng Nghymru yn sicrhau fod nifer sylweddol o gymunedau’r Cymoedd ynghlwm wrth y cynllun. Bydd y rhain yn creu màs critigol a fydd yn newid y patrwm o wasanaethau yn yr holl ranbarth. O ganlyniad i’r strategaeth Cymunedau yn Gyntaf bydd yr Awdurdodau Lleol, y Sector Gwirfoddol, Ymddiriedolaethau Iechyd a’r cymunedau eu hunain yn ymrwymedig i’r dull partneriaeth o adfywio’r Cymoedd, dull a fydd yn lledaenu allan o’r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf penodedig. Bydd y strategaeth hefyd yn sicrhau cyswllt a chysoni gyda pholisïau eraill y

Cynulliad ym meysydd iechyd, adfywio economaidd, addysg a hyfforddiant er mwyn hybu llwyfan integredig o bolisi er mwyn ateb anghenion y Cymoedd.

Gweithgareddau eraill a fydd yn cynorthwyo Datblygu Cymunedol:

- Mae ymarfer ar y gweill i adnabod, asesu a lle bo’n bosib, rhesymoli y rhaglenni Cynulliad hynny sy’n dylanwadu ar anfantais gymdeithasol. Y bwriad yw symleiddio’r rhaglenni er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch a hyblyg ac i roi gwasanaethau gwell ar waith.

- Mae cyfeiriadur o brosiectau cymunedol presennol Cymru yn cael ei sefydlu. Mae tua 700 o fudiadau sydd â ffocws bendant ar ddatblygu ac adfywio cymunedau wedi’u hadnabod, ac mae nifer ohonynt wedi eu lleoli yng Nghymoedd y De. Bydd fersiwn bapur o’r cyfeiriadur yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn yr haf gyda CD a gwefan yn fuan wedyn.